



PROCESSIONS Caerdydd –Gwirfoddolwyr – Swydd Ddisgrifiad

Mae hwn yn gyfle unwaith mewn oes i gymryd rhan mewn gwaith celf cydweithredol i ddathlu can mlwyddiant o bleidleisio i ferched.

Gwybodaeth gefndirol:

Yn 1918, rhoddodd Deddf Cynrychiolaeth y Bobl yr hawl i fenywod ym Mhrydain i bleidleisio am y tro cyntaf a sefyll ar gyfer Swyddi Cyhoeddus. Can mlynedd ymlaen, rydym yn gwahodd menywod* a genethod ledled y DU i ddod i ddathlu'r funud hanesyddol hon fel rhan o bortread byw o fenywod yn yr 21ain Ganrif.

Ar ddydd Sul y 10^{fed} o Fehefin, bydd merched yn Belfast, Caerdydd, Caeredin a Llundain yn cerdded gyda'u gilydd fel rhan o waith celf cydweithredol eang. Gan wisgo naill ai gwyrdd, gwyn neu fioled, lliwiau'r mudiad pleidleisio, bydd y *PROCESSIONS* yn ymddangos fel afon liwgar sy'n llifo drwy strydoedd y dinasoedd.

* y rhai a gydnabyddir fel menywod neu di-ddeuaidd

Cardiff *PROCESSIONS*:

Rydym angen recriwtio 100 o wirfoddolwyr i'n cynorthwyo gyda trefnu'r orymdaith; dosbarthu sgarffiau i'r merched a phlant sy'n cynrychioli lliwiau'r Suffragette's ac i drosglwyddo gwybodaeth a rhoi cymorth i'r cyfranogwyr. Mae hyn yn gyfle unwaith mewn oes i ddathlu Merched yn cael y bleidlais.

Dyddiad: Dydd Sul 10ed o Fehefin 2018

Amser: 10y.b – 6y.h

Tal: Gwirfoddol ond fe ddarperir cinio ac fe gewch grys T i gofio'r achlysur.

Oedran lleiaf: 18

Mae'r swydd yn agored i ferched a dynion.

Swydd Ddisgrifiad

- Mynychu cyflwyniad i wirfoddolwyr.
- Cydlynu cychwyn yr orymdaith/trefnu'r cyfranogwyr.
- Bod ar gael mewn manau gwybodaeth ar gychwyn a diwedd yr orymdaith.
- Dosbarthu sgarffiau i'r cyfranogwyr fydd yn rhan o'r gwaith celf gweledol.
- Rhoi cymorth i rai fydd ag anghenion.
- Bod ar gael ar Ddydd Sul y 10ed o Fehefin 2018 –boed hi'n haul neu hindda!

Gwybodaeth ychwanegol:

- Gwaith yn yr awyr agored fydd hyn.
- Cewch fod yn rhan o'r orymdaith.
- Mae llawer o'r dyletswyddau yn golygu bod ar eich traed am gyfnodau. Cofiwch nodi gyda'ch cais os na ellwch sefyll am gyfnodau hir.
- Os ydych a'ch bryd ar rhyw swydd arbennig a wnewch nodi hynny ar eich ffurflen gais.
- A wnewch nodi os byddwch angen lle parcio gan bod nifer cyfyngedig iawn o faesydd parcio ar gael.

Gwneud Cais

- Os oes gennych ddi-ddordeb, gyrrwch e-bost i processionscardiff@gmail.com gan nodi eich diddordeb, argaeledd a rhif cyswllt.

Llawer o ddiolch ac edrychwn ymlaen i glywed gennych!